

Ni allwn ddarganfod y geiriau

“Teilwng wyt ti, ein Harglwydd a’n Duw, i dderbyn y gogoniant a’r anrhydedd a’r gallu.” (adn. 11)

Beth am ddarllen Datguddiad 4:1–11 ac yna myfyrio

Mae’n amser nawr i ddod i’r afael â’r cwestiwn: Sut le yw’r nefoedd? Er nad yw’n bosibl i brynu llyfr sydd yn disgrifio’r ddinas nefol, mae llyfr y Datguddiad, yn fwy na’r un llyfr arall yn y Beibl, yn rhoi rhyw syniad i ni o sut le yw’r nefoedd.

Pan fyddaf yn nesáu at lyfr y Datguddiad, byddaf yn cael fy atgoffa o stori a glywais unwaith am ferch fach a anwyd yn ddall. Roedd ei mam yn arfer disgrifio prydferthwch y byd iddi, ond gan nad oedd y ferch fach erioed wedi gweld, nid oedd ganddi fawr o syniad ynglŷn â’r hyn a ddisgrifiwyd. Pan oedd hi’n ddeuddeg oed, cafodd lawdriniaeth ar ei llygaid ac fe gafodd ei golwg yn ôl. Pan welodd ogoniant y greadigaeth am y tro cyntaf, fe drodd at ei mam a dweud: “Mam, pam na ddywedaist wrthyf ei bod mor brydferth?” Atebodd ei mam, “Gwnes ymgais, ond roedd yn amhosibl darganfod geiriau digonol.” Dyna sut yr wyf fi’n teimlo wrth ddarllen disgrifiad Ioan o’r nefoedd. Mae’n ceisio dweud wrthym sut le yw’r nefoedd, ond er ei fod yn ddisgrifiadol, mae dyn yn teimlo nad yw iaith yn abl i ddarlunio’r nefoedd yn ddigonol.

Yn y bennod o’n blaen heddiw, mae Ioan yn dangos fod y nefoedd yn fan lle ceir mawl parhaus. Mae pob llygad yn y nefoedd wedi ei gyfeirio tuag at yr orsedd. Mae pob creadur yn canmol ac yn addoli Duw ac yn addoli’r Oen. Un o’r pleserau pennaf ar y ddaear yw adnabod enaid yn cael ei feddiannu gan fawl i Dduw. Ond yn y nefoedd, nid yn unig byddwn yn cael ein meddiannu gan hyn, byddwn yn ymgolli yn llwyr ynddo. Gellir disgrifio ein mawl ar y ddaear fel rihysal cyn cael mynd i gymanfa’r cyntafanedig.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 19:1; 22:23; Rhuf. 15:6; Actau 7:55

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth y mae’r nefoedd yn ei ddatgan?
2. Beth welodd Steffan yn y nefoedd?

Gweddi

O Dad, ni allaf ddisgrifio’r llawenydd sydd yn dod i’m henaid wrth dy addoli di yma ar y ddaear. Ond rwy’n gweld yn y nefoedd pan fo ffydd yn cael ei cholli ar gyfrif golwg, pan fyddaf yn cael adnabod fel yr wyf fi yn cael fy adnabod, beth fydd mesur y mawl a’r llawenydd fydd ddeng mil o weithiau yn fwy cyffrous. Ni allaf ddisgwyl. Diolch i ti, O Dad. Amen.